| Trosolwg Hunan Werthuso 2025-26 Self Evaluation Overview |
|---|
| CRYFDERAU:<br><br>Gwaith ein Swyddog Teuluol, Bugeiliol<br>Gwaith y Swyddog Lles<br>Gweithdrefnau Diogelu cadarn<br>Effaith y Pwyllgorau Disgyblion ar fywyd yr Ysgol<br>Treialau Strategaethau Lles<br>Gwybodaeth ac arbenigedd y CADY o fewn yr ysgol ac fel arweinydd y Clwstwr<br>Cyfarfodydd cynnydd tymhorol<br>Sesiynau pythefnosol ‘Cwrdd a’r CADY’<br>Defnyddio data profion cenedlaethol a gwybodaeth asesu mewnol er mwyn darparu ymyraethau<br>Tim ymyraethau<br>Gwaith clwstwr<br>Cynllunio yn ôl y 6 Maes Dysgu a Phrofiad<br>Cysoni canllawiau marcio sy’n ddilynol trwy’r ysgol<br>Cytuno ar strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu gyda dilyniant<br>Cyfarpar o ansawdd uchel<br>Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd<br>Continwwm yn y meysydd dysgu a phrofiad<br>Grwp ‘Teams’ ar gyfer rhannu gwybodaeth, strategaethau a syniadau gyda staff yr ysgol<br><br>*STRENGTHS:*<br>*The work of our Family, Pastoral and Wellbeing Officer*<br>*The work of the Welbeing Officer*<br>*Robust security*<br>*The impact of the pupil committees on the school*<br>*Trials of Wellbeing Strategies*<br>*Knowledge and guidance of the ALNCo within the school and as the leader of the Cluster*<br>*Promotion meetings 'Meet the ALNCo' sessions*<br>*Use of national data and internal assessment information to deliver interventions*<br>*Interventions team*<br>*Cluster work*<br>*Planning according to the 6 Areas of Learning and Experience*<br>*Consistent marking guidelines that progress throughout the school*<br>*Agreed assessment for learning strategies*<br>*High quality equipment group engagement*<br>*Continuum in the areas of learning and experience*<br>*A 'Teams' group for sharing information, strategies and ideas with school staff* |

MEYSYDD I’W DATBLYGU:

Ymwreiddio strategaethau lles a meddwlgarwch ymhob dosbarth
Hyfforddi staff yn gyson gyda diweddariadau
Sicrhau bod pob blwyddyn yn dilyn continiwwm clwstwr wrth gynllunio
Sicrhau gweledigaeth clir o Meithrin hyd at Flwyddyn 6 wrth wreiddio’r cwricwlwm newydd
Cysoni arferion dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol

*AREAS FOR DEVELOPMENT:*
*Embedding well-being and mindfulness strategies in every class*
*Train staff regularly with updates*
*Ensure that each year follows a cluster continuum when planning*
*Ensuring a clear vision of Nursery up to Year 6 when embedding the new curriculum*
*Consistency in learning and teaching practices across the school*

| GWERTHUSIAD CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024-2025 SCHOOL DEVELPOMENT PLAN EVALUATION | |
|---|---|
| Blaenoriaeth / Priority | Camau Gweithredu / Actions |
| ADDYSGEG<br><br>Angen i’r ysgol i fabwysiadu, integreiddio a gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Angen pwysleisio defnydd llais y disgybl fel adnodd i arwain yr addysgu.<br><br>*PEDAGOGY*<br><br>*The school needs to adopt, integrate and implement a Curriculum for Wales. Need to emphasise the use of the pupil's voice as a resource to guide the teaching.* | Diwrnod asesu / cymedroli Ll&Ch/ M&Rh clystyrol i edrych ar safonau ar draws y clwstwr ac i firieinio’r continiwa yn ol y gofyn. **Effaith**: Cysondeb ar draws y clwstwr, sicrhau gweledigaeth gyson o sut mae CC3 yn edrych (ac felly’r CC i gyd o ganlyniad), gweledigaeth gwell gan arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd o’r hyn sy’n digwydd ar draws yr ysgol a’r clwstwr, rhannu arfer dda. **Ffordd ymlaen**: Parhau i weithredu’r diwrnodau yma ar gyfer y MDaPh i gyd yn flynyddol, ceisio cyd-blethu mewnbwn disgyblion i'r broses hefyd, ystyried cynnal diwrnodau ar gyfer yr ysgolion cynradd yn unig i gadarnhau cysondeb yn CC1&2 hefyd.<br><br>*Cluster Literacy / Numeracy assessment / moderation day to look at standards across the cluster and to refine the continuum as required. **Impact**: Consistency across the cluster, ensuring a consistent vision of what PS3 looks like (and therefore all the PS as a result), a better vision from Literacy and Numeracy leaders of what is happening across the school and the cluster, sharing good practice. **Way forward**: Continue to implement these days for all the AoLEs annually, try to interweave pupils' input into the process as well, consider holding days for the primary schools only to ensure consistency in PS1&2 as well.*<br><br>Cynhelir Bore Coffi Cwricwlwm am y Celfyddydau Mynegiannol a M&Rh yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu syniadau a gwybodaeth o elfennau lleol i fwydo i'n cwricwlwm ysgol. **Effaith:** Rhoi cyfle i'n rhanddeiliaid i gyfrannu tuag at ein cwricwlwm ysgol. **Ffordd ymlaen**: Ymgorffori’r syniadau i mewn i'n cwricwlwm ysgol a sicrhau bod cyfleoedd eraill I'r rhieni i gyfrannu tuag at ein cwricwlwm ysgol. |

| | |
|---|---|
| | *A Curriculum Coffee Morning about the Expressive Arts and Numeracy is held during the year in order to gather ideas and information from local elements to feed into our school curriculum.* ***Impact****: Giving our stakeholders an opportunity to contribute towards our school curriculum.* ***Way forward****: Incorporate the ideas into our school curriculum and ensure that there are other opportunities for the parents to contribute towards our school curriculum.*<br><br>Clwstwr Teulu Llan yn parhau i gydweithio yn effeithiol gyda'n gilydd wrth ddatblygu a mireinio ein cwricwlwm clwstwr. **Effaith**: Cysondeb ar draws y clwstwr wrth i ni fabwysiadu'r cwricwlwm newydd. **Ffordd ymlaen:** Parhau i gydweithio yn agos fel clwstwr er mwyn sicrhau cysondeb yn y profiadau erbyn y plant i gyrraedd Blwyddyn 7.<br><br>*Llan Family Cluster continues to collaborate effectively together in developing and refining our cluster curriculum.* ***Impact:*** *Consistency across the cluster as we adopt the new curriculum.* ***Way forward****: Continue to work closely together as a cluster to ensure consistency in the experiences by the time the children reach Year 7.*<br><br>Continwa clystyrol Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi ei gwblhau ac yn barod i'w fabwysiadu yn nhymor yr Hydref. **Effaith**: Continwa Gwyddoniaeth a Thechnoleg clystyrol ar waith ym mhob ysgol yn ein clwstwr. **Ffordd Ymlaen**: Cwblhau continwa clwstwr Y Dyniaethau a Iechyd a Lles.<br><br>*The Science and Technology cluster continuum has been completed and is ready for adoption in the Autumn term.* ***Impact****: Cluster Science and Technology continuums in every school in our cluster.* ***Way Forward****: Completing the continuum of the Humanities and Health and Wellbeing cluster.*<br><br>Rhieni wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd yn ystod y flwyddyn i fod yn rhan o daith dysgu y plant. Nosweithiau rhieni, noson cwrdd a'r athro/athrawes, sesiynau sgiliau i helpu'r rhieni i helpu eu plant, a sesiynau dathlu llwyddiant ar ddiwedd y flwyddyn. **Effaith**: Rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ddilyn cynnydd eu plant yn ystod y flwyddyn. **Ffordd Ymlaen**: Parhau i gynnig cyfleoedd i rhieni i fod yn rhan o daith dysgu eu plant yn ystod eu hamser ym Mro Ogwr.<br><br>*Parents have had a variety of opportunities during the year to be part of the children's learning journey. Parents' evenings, a night to meet the teacher, skills sessions to help parents help their children, and success celebration sessions at the end of the year.* ***Impact****: Parents appreciate the opportunities to follow their children's progress during the year.* ***A Way Forward****: Continue to* |

| | |
|---|---|
| | *offer opportunities for parents to be part of their children's learning journey during their time in Bro Ogwr.* |
| LLES A CHYNHWYSIANT<br><br>Parhau i ddatblygu'r systemau sy'n cael effaith ar les ac ymagwedd tuag at ddysgu. | <u>Pontio:</u> 'Train the Trainer' - Wedi rhaedru negeseuon Safon Aur Cwm Taf i unigolion y clwstwr sy'n trefnu pontio cartref ysgol. **Effaith**: Cyfle buddiol i rannu gweithdrefnau ac arferion da. Trafod ac ystyried mireinio gweithdrefnau a chyflwyno ambell i beth newydd i'n hysgolion a'n teuluoedd. **Ffordd Ymlaen**: Cwrdd eto tymor nesaf i werthuso'r gweithdrefnau/gweithgareddau newydd. Cysondeb ymhlith ysgolion y clwstwr.<br><br>*<u>Transition:</u> 'Train the Trainer' - Cascaded Cwm Taf Gold Standard messages to the individuals in the cluster who organize home school transitions. **Impact**: A beneficial opportunity to share good procedures and practices. Discuss and consider refining procedures and introducing a few new things to our schools and families. **Way Forward**: Meet again next term to evaluate the new procedures/activities. Consistency among schools in the cluster.*<br><br>Wedi creu llyfr Croeso i'r plentyn sy'n symud i Ysgol Bro Ogwr o ysgol arall. **Effaith**: Llyfryn cynhwysfawr sy'n trosglwyddo gwybodaeth sy'n berthnasol i'r disgybl. Disgyblion newydd i deimlo eu bod yn rhan o gymuned yr ysgol o'r cychwyn.<br><br>*Created a Welcome book for the child who is moving to Ysgol Bro Ogwr from another school. **Impact**: A comprehensive booklet that conveys information relevant to the pupil. New pupils to feel that they are part of the school community from the start.*<br><br><u>Do Be Mindful:</u> Bron pob ymarferydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar lein. Effaith: Gwybodaeth a hyder er mwyn darparu sesiynau a chreu awyrgylch meddwlgarwch i'r disgyblion. Ffordd ymlaen: Monitro sesiynau meddwlgarwch ynghyd a Llais y disgybl.<br><br>*<u>Do Be Mindful:</u> Almost all practitioners have completed the online training. **Impact**: Knowledge and confidence in order to provide sessions and create an atmosphere of thoughtfulness for the pupils. **Way forward**: Monitor mindfulness sessions together with the Pupil's Voice.*<br><br><u>Ysgolion Iach</u>: Ymarferwyr wedi llenwi holiadur. **Effaith**: Cyfrannu at y cynllun gweithredu a chasglu tystiolaeth tuag at y wobr. **Ffordd Ymlaen:** Holiaduron i rieni a disgyblion.<br><br>*<u>Healthy Schools</u>: Practitioners have completed a questionnaire. **Impact**: Contribute to the action plan and collect evidence towards the award. **Way Forward**: Questionnaires for parents and pupils.* |

| | |
|---|---|
| | <u>Hawliau Plant</u>: Cyfeirio at Hawliau Plant wrth drydaru. **Effaith**: Codi ymwybyddiaeth y gymuned ehangach. Cysondeb trwy''r ysgol.<br><br><u>Children's Rights</u>: Refer to Children's Rights when tweeting. **Impact**: Raising the awareness of the wider community. Consistency throughout the school. |
| LLYTHRENNEDD, RHIFEDD A LLYTHRENNEDD DIGIDOL<br><br>Codi safonau a gwella darpariaeth.<br>Cysondeb ar draws yr ysgol<br>Gweithio ar draws y Clwstwr<br><br>*LITERACY, NUMERACY AND DIGITAL LITERACY*<br>*Raising standards and improving provision.*<br>*Consistency across the school*<br>*Working across the Cluster* | |
| Iaith a Llythrennedd<br><br>*Language and Literacy* | **Darllen Co**. **Effaith** – Wrth drafod gydag aelodau staff addysgu gwnaeth y rhan fwyaf cyfathrebu bod Darllen Co. yn effeithiol wrth ennyn diddordeb y disgyblion i ddarllen llyfrau Cymraeg. Roedd llawer yn defnyddio'r wefan yn bwrpasol ar gyfer tasgau amrywiol nid dim ond ar gyfer darllen a deall.<br><br>***Reading Co. Impact*** *- When discussing with teaching staff members most communicated that Reading Co. is effective in getting the pupils interested in reading Welsh books. Many used the website purposefully for various tasks not just for reading and understanding.*<br><br>**Hyfforddiant Pie Corbett** - **Effaith** – Mae bron bob un gwnaeth derbyn hyfforddiant Pie Corbett wedi defnyddio'r strategaethau ar lawr y dosbarth yn dweud bod y strategaethau yn effeithiol iawn. Mae modd gwahaniaethau'n effeithiol, mae'r patrymau iaith o ansawdd gwych, mae'n dda iawn wrth godi safonau llafar, gwrando ac ysgrifennu. Roedd bron bob un medru ysgrifennu gyda mwy o ddyfalbarhad i ysgrifennu darn estynedig.<br><br>***Pie Corbett Training - Impact*** *- Almost everyone who received Pie Corbett training has used the strategies on the classroom floor saying that the strategies are very effective. Differentiation is effective, the language patterns are of excellent quality, it is very good at raising speaking, listening and writing standards. Almost all were able to write with more persistence to write an extended piece.*<br><br>**Craffu ar Lyfrau** - **Effaith** - Monitro trawsdoriad o lyfrau disgyblion amrywiol gyda'r partner gwella. Mae craffu a monitro |

| | |
|---|---|
| | llyfrau'n gyson wedi arwain at godi safonau bron bob un. Gwelwyd tystiolaeth gan y rhan fwyaf o wahaniaethu clir, cyfleoedd i ymateb i adborth, a datblygiad amlwg rhwng pob blwyddyn. Hefyd bod nifer o dasgau priodol.<br><br>***Book Scrutiny - Impact*** *- Monitor cross-section of variety of pupils' books with the improvement partner. Constant scrutiny and monitoring of books has led to raising the standards of almost all of them. Most evidenced clear differentiation, opportunities to respond to feedback, and clear development between each year. Also that there are a number of appropriate tasks.*<br><br>**Darllen gyda darllenwyr 22/04 -Bl.1/2/3 a 4 - Effaith –** Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddarllen a thrafod y llyfrau/ystyr geirfa ac idiomau, ond yn rhy gynnar i fesur gwir effaith.<br><br>***Reading with readers 22/04 - Years 1/2/3 and 4 - Impact*** *- Most pupils confident when reading and discussing the books/meaning of vocabulary and idioms, but too early to measure real impact.*<br><br>**Pecyn Drilio Iaith** – Hyfforddiant CCD – **Effaith** - Teimlodd bron bob un aelod staff bod yr hyfforddiant ynfuddiol er mwyn gwella ac amrywio'r ffyrdd o gyflwyno'r patrymau trwy gemau ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth wneud hyn. Serch hynny, wrth drafod gydag aelodau staff, teimlodd llawer bod e'n anodd i ddrilio'r patrymau'n gyson (3 gwaith yr wythnos) o ran amserlen ac i gadw at drefn y patrymau. Ar adegau roedd patrymau eraill o ddefnydd gwell yn dibynnu ar y dasg yr wythnos yna.<br><br>***Language Drilling Pack*** *- CSC Training -* ***Impact*** *- Almost every member of staff felt that the training was beneficial in order to improve and vary the ways of presenting the patterns through games and felt more confident in doing this. Nevertheless, when discussing with members of staff, many felt that it was difficult to drill the patterns consistently (3 times a week) in terms of timetable and to keep to the order of the patterns. At times there were other patterns of better use depending on the task that week.*<br><br>------------------ |
| Mathemateg a Rhifedd<br><br>*Mathematics and Numeracy* | **Gweithio gyda Swyddog CCD i fapio sgiliau Mathemateg a Rhifedd ar draws yr ysgol.** Bydd hwn yn cael ei gyflwyno ym mis Medi. **Effaith** – Bydd hwn yn rhoi syniad o drefn sgiliau er mwyn sicrhau llenwi bylchau a chynnydd ar draws y cam cynnydd.<br><br>**Work with the CSC Officer to map Maths and Numeracy skills across the school.** This will be introduced in September. **Impact** – This will give an idea of the order of skills to ensure gaps are filled and progress across the progression stage. |

| | |
|---|---|
| | **Datblygu ardaloedd Mathemateg o amgylch yr ysgol gyda ystod o drinolion.** Staff addysgu wedi derbyn hyfforddiant nifer o drinolion wahanol addas ar gyfer pob oedran, mae stoc o bopeth wedi archebu a dosbarthu ac adnoddau mathemateg yn y stordy wedi sortio i feysydd wahanol.**Effaith -** Gellir gweld gwelliant yn llyfrau'r plant a defnydd o fodelu gyda'r trinolion. Roedd bron pob un o'r dysgwyr wedi son bod nhw'n gyfarwydd a ddefnyddio ac bod nhw ar gael yn y dosbarth.<br><br>***Developing Maths areas around the school with a range of manipulatives.*** *Teaching staff have received training in a number of different uses of manipulatives suitable for all ages, stock of everything has been ordered and distributed and mathematics resources in the storeroom have been sorted into different areas.* ***Impact*** *- An improvement can be seen in the children's books and the use of modelling with the manipulatives. Almost all of the learners had mentioned that they were familiar with using and that they were available in class.*<br><br>**Parhau i weithredu system cylchdroi.** Disgresiwn athro; ystyried – y sgil sy'n cael ei gyflwyno, a phryd maen briodol. **Effaith -** sicrhau dealltwriaeth gysyniadol a gwahaniaethu yn unol â hynny, cyfle i deilwra sesiynau ar gyfer anghenion unigol ac felly sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. Bron pob un o'r plant yn cytuno bod hyn wedi bod yn gadarnhaol, maent yn deall y system ac yn hoffi'r cyfle i weithio'n annibynnol. O ganlyniad gall dysgwyr fod yn greadigol gan fod y model hwn yn gofyn iddynt chwarae, arbrofi, cymryd risgiau a bod yn hyblyg wrth fynd i'r afael â phroblemau mathemategol, gwelir canlyniadau asesiadau personol.Cyfle i ddefnyddio sgiliau mewn cyd-destun gan ganiatáu iddynt weld pwysigrwydd Mathemateg a bod yn rhifog.<br><br>***Continue to operate a rotating system.*** *Teacher discretion; consider – the skill being introduced, and when it is appropriate.* ***Impact*** *- ensuring conceptual understanding and differentiation accordingly, an opportunity to tailor sessions for individual needs and therefore ensure that each child reaches their full potential. Almost all of the children agree that this has been positive, they understand the system and like the opportunity to work independently. As a result learners can be creative as this model requires them to play, experiment, take risks and be flexible when tackling mathematical problems, the results of personal assessments are seen. An opportunity to use skills in context allowing them to see the importance of Mathematics and being numerical.*<br><br>**Adolygu a mireinio system herio a chwestiynu – datblygu er mwyn asesu'r dysgu.** Amlygodd craffu ar lyfrau gyda chynghorydd her y maes hwn hefyd. Mae Swyddog CCD wedi |

| | |
|---|---|
| | cynnal sesiwn hyfforddi gyda staff, mae adnoddau wedi eu creu i ddatblygu dealltwriaeth a rhesymu yn arbennig ar gyfer y rhai ym mlynyddoedd 4 – 6. **Effaith** – anodd i fesur gan bod hwn yn hyfforddiant ddiweddar ond bydd y plant yn datblygu pob un o'r 5 hyfedredd, yn enwedig eu Dealltwriaeth Gysyniadol, Rhuglder, Rhesymeg Rhesymegol a Chymhwysedd Strategol eto gan roi'r cyfle iddynt arbrofi a mentro. Cymedroli clwstwr wedi nodi bod heriau a cwestiynu ni i weld yn edrych ar y 5 hyfedredd ac yn rhywbeth iddynt ystyried. Targed yma i barhau flwyddyn nesaf, lle bydd modd edrych yn fwy fanwl ar yr effaith.<br><br>***Review and refine a challenging and questioning system - develop in order to assess the learning.*** *Scrutinizing books with an advisor also highlighted the challenge of this area. A CSC Officer has held a training session with staff, resources have been created to develop understanding and reasoning especially for those in years 4 - 6.* ***Impact*** *- difficult to measure as this is recent training but the children will develop all 5 skills, especially their Conceptual Understanding, Fluency, Logical Reasoning and Strategic Competence again giving them the opportunity to experiment and take risks. Cluster moderation has indicated that challenges and questioning us seem to be looking at the 5 skills and something for them to consider. A target here to continue next year, where it will be possible to look more closely at the effect.*<br><br>-------------------- |
| Llythrennedd Digidol<br><br>*Digital Literacy* | **Monitro Gwaith**. Partner Gwella wedi cwrdd a thrafod gwaith gyda disgyblion Bl 3 hyd at Bl6. Bodlon ar safonau sgiliau'r disgyblion a'r ffordd trafodwyd eu gwaith. **Effaith** – Partner Gwella yn gosod barn a safonau. Meincnod cadarn wedi eu sefydlu i ddatblygu sgiliau a thrawsdoriad sgiliau ymhellach. Tystiolaeth fod disgyblion yn trafod eu gwaith yn effeithiol.<br><br>***Monitoring Work****. Improvement Partner has met and discussed work with Year 3 pupils up to Year 6. Satisfied with the pupils' skill standards and the way their work was discussed.* ***Impact*** *– Improvement Partner sets judgments and standards. A solid benchmark has been established to further develop skills and cross-section of skills. Evidence that pupils discuss their work effectively.*<br><br>**Cefnogaeth CCD**. Cyfarfod gyda Swyddog Datblygu ar gyfer Dysgu Digidol CCD a thrafod gwaith Digidol gyda Disgyblion Bl 4 a 5. Hapus gyda thrawsdoriad sgiliau a safonau gwaith gyda disgyblion wedi ymateb a thrafod yn effeithiol. Wedi trafod llwyddiant gweithdrefnau sefydlwyd a nodi targedau posib i symud y pwnc ymlaen. **Effaith** - Swyddog datblygu yn craffu ar waith ac yn gosod barn ar safonau. |

| | |
|---|---|
| | ***CSC support.*** *Meeting with Development Officer for CSC Digital Learning and discussing Digital work with Year 4 and 5 Pupils. Happy with the cross-section of skills and work standards with pupils having responded and discussed effectively. After discussing the success of procedures, possible targets were established and identified to move the subject forward.* ***Impact*** *- A development officer scrutinizes work and sets an opinion on standards.*<br><br>**Cadarnhad ar beincnod safonau**. Tystiolaeth o safonau disgyblion yn trafod eu Gwaith. Canlyniad y Monitro yn llywio ffordd ymlaen a thargedau datblygu i'r dyfodol. Canlyniadau llwyddiannus i'w hychwanegu fel tystiolaeth i godi safonau o fewn Digi 360.Cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad Clwstwr wedi cwblhau Continiwwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg. **Effaith** – Continwwm wedi eu creu ac yn barod i Clwstwr Ysgolion y Clwstwr i ddilyn yn y flwyddyn i ddod.<br><br>***Confirmation of a standards benchmark.*** *Evidence of pupils' standards discussing their Work. The result of the Monitoring guides the way forward and development targets for the future. Successful results to be added as evidence to raise standards within Digi 360. Cluster Learning Areas and Experience Meetings have completed the Science and Technology Continuum.* ***Impact*** *– Continuum have been created and are ready for the Cluster of Cluster Schools to follow in the coming year.* |